Pecyn Dogfennau

Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD MERCHER, 5 MEDI 2018**

**AT: HOLL AELODAU'R PWYLLGOR TRWYDDEDU**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PWYLLGOR TRWYDDEDU** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN - NEUADD Y SIR** AM **10.00 AM, DYDD IAU, 13EG MEDI, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA ATODEDIG.

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Kevin Thomas** |
| **Ffôn (Llinell Uniongyrchol):** | **01267 224027** |
| **E-bost:** | **kjthomas@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 14 AELOD

**Y GRŴP PLAID CYMRU – 7 AELOD**

1. Y Cynghorydd Mansel Charles
2. Y Cynghorydd Ann Davies
3. Y Cynghorydd Tyssul Evans
4. Y Cynghorydd Ken Howell
5. Y Cynghorydd Eirwyn Williams
6. Y Cynghorydd D.E. Williams [Is-Gadeirydd]
7. Lle Gwag

**Y GRŴP LLAFUR – 4 AELOD**

1. Y Cynghorydd Fozia Akhtar
2. Y Cynghorydd Penny Edwards
3. Y Cynghorydd Amanda Fox
4. Y Cynghorydd John Prosser

**Y GRŴP ANNIBYNNOL – 3 AELOD**

1. Y Cynghorydd Rob Evans
2. Y Cynghorydd Irfon Jones
3. Y Cynghorydd Edward Thomas [Cadeirydd]

***DYLAI AELODAU FOD YN YMWYBODOL NA CHANIATEIR IDDYNT OFYN I AELODAU O FEWN EU GRWPIAU EU HUNAIN I'W CYNRYCHIOLI MEWN CYFARFODYDD O'R PWYLLGOR YMA***

# AGENDA


| | | |
|---|---|---|
| 1. | YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB | |
| 2. | DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL. | |
| 3. | MRS REBECCA LOUISE BURTON - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT | 5 - 8 |
| 4. | MR RICHARD LEE JONES - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT | 9 - 12 |
| 5. | LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 31AIN GORFFENNAF, 2018 | 13 - 18 |
| 6. | LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 2AIL AWST, 2018 | 19 - 24 |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 13/09/18

**PWNC A PHWRPAS**
**Mrs Rebecca Louise Burton**
**Trwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Bod Mrs Burton yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

**RHESYMAU:**

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| **Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol** | **Amherthnasol** |
| **Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |
| **Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** | **Amherthnasol** |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| **Y Gyfarwyddiaeth:**<br>**Cymunedau** | **Swydd:** | **Rhifau Ffôn:**<br>**Cyfeiriadau E-bost:** |
|---|---|---|
| **Enw Pennaeth y Gwasanaeth**<br>**Mr Jonathan Morgan** | **Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel** | **01554 899285**<br>**jmorgan@sirgar.gov.uk** |
| **Awdur yr Adroddiad**<br>**Justin Power** | **Uwch-swyddog Trwyddedu** | **01267 228932**<br>**JHPower@sirgar.gov.uk** |

# EXECUTIVE SUMMARY
# Licensing Committee
# 13/09/18

**SUBJECT**

**Mrs Rebecca Louise Burton**

**Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence**

**Mrs Rebecca Louise Burton of The Old Mill, Dre-Fach, Felindre, Llandysul is a licensed hackney carriage/private hire dual driver with this authority.**

| | |
|---|---|
| **DETAILED REPORT ATTACHED ?** | **NO** |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities**



Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

# CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD10763 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU
## 02/08/18

**PWNC A PHWRPAS**
**Mr Richard Lee Jones**
**Cais am Drwydded Yrru Ddeuol Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat**

## ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

**Caniatáu cais Mr Jones gyda rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## RHESYMAU:

**Canllawiau'r Cyngor.**

| | |
|---|---|
| Ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Craffu perthnasol | Amherthnasol |
| Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad | Amherthnasol |
| Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad | Amherthnasol |

**Aelod y Bwrdd Gweithredol sy'n Deiliad y Portfolio: Cynghorydd P.M. Hughes**

| Y Gyfarwyddiaeth: Cymunedau | Swydd: | Rhifau Ffôn: Cyfeiriadau E-bost: |
|---|---|---|
| Enw Pennaeth y Gwasanaeth Mr Jonathan Morgan | Pennaeth Dros Dro Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel | 01554 899285 jmorgan@sirgar.gov.uk |
| Awdur yr Adroddiad Justin Power | Uwch-swyddog Trwyddedu | 01267 228932 JHPower@sirgar.gov.uk |

# EXECUTIVE SUMMARY
# Licensing Committee
# 02/08/18

**SUBJECT**

**Mr Richard Lee Jones**

**Application for the Grant of a Hackney Carriage/Private Hire Dual Drivers Licence**

**To consider an application from Mr Richard Lee Jones of 11 Maesderi, Hendy for the grant of a hackney carriage/private hire dual drivers licence.**

**This item was deferred by the Licensing Committee on the 27th June 2018 as Mr Jones failed to attend, and on the 2nd August 2018 as Mr Jones was unable to attend.**

| DETAILED REPORT ATTACHED ? | NO |
| --- | --- |

## IMPLICATIONS

**I confirm that other than those implications which have been agreed with the appropriate Directors / Heads of Service and are referred to in detail below, there are no other implications associated with this report :**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities**


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

| Policy and Crime & Disorder | Legal | Finance | ICT | Risk Management Issues | Organisational Development | Physical Assets |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** | **NONE** |

## CONSULTATIONS

**I confirm that the appropriate consultations have taken in place and the outcomes are as detailed below**

**Signed: Mr Jonathan Morgan** **Acting Head of Homes and Safer Communities**

**1.Local Member(s):**
**No local member involvement and therefore no consultation necessary.**
**2.Community / Town Council:**
**No Community / Town Council involvement and therefore no consultation necessary.**
**3.Relevant Partners:**
**No Police and Fire Authority involvement and therefore no consultation necessary.**
**4.Staff Side Representatives and other Organisations:**
**There are no other organisations involved and therefore no consultation necessary.**

**Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information**
**List of Background Papers used in the preparation of this report:**

**THESE ARE DETAILED BELOW**

| Title of Document | File Ref No. | Locations that the papers are available for public inspection |
|---|---|---|
| Application Form and File Contents. | DD30966 | Licensing Section, 3 Spilman Street, Carmarthen |
| | | |
| | | |

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU B

**31 GORFFENNAF 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd H.I. Jones (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** P.M. Edwards a J.E. Williams.

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion**: Y Cynghorwyr W.T. Evans a E. Williams.

**Yn bresennol fel cynrychiolydd Awdurdod Cyfrifol:**
A. Morgan, Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol;
E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu;
A. Rees, Swyddog Trwyddedu;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:15am - 11:05am**

## 1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 2. HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO - PLASTY DERWYDD, HEOL DERWYDD, RHYDAMAN, SIR GÂR, SA18 3LQ

Yn ei gyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018 cafodd yr Is-bwyllgor y 3 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro, ond er mwyn casglu rhagor o dystiolaeth, penderfynwyd gohirio gwneud penderfyniad ynghylch y 3 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro tan y cyfarfod hwn.

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybodaeth i bawb oedd yn bresennol am y weithdrefn ar gyfer y cyfarfod a dywedodd wrth yr Is-bwyllgor fod hysbysiad gwrthwynebu wedi cael ei gyflwyno gan Adain Iechyd y Cyhoedd Cyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â'r 3 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro a gyflwynwyd gan Mrs Maria Dallavalle o La Scala, 15 Rhodfa Bryn Mawr, Rhydaman, SA18 2DA.

Roedd yr Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro yn berthnasol i werthu alcohol trwy fanwerthu, darparu Adloniant Rheoledig a Lluniaeth Gyda'r Hwyr ar y safle ar y diwrnodau a'r amserau canlynol:-

Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro 1 –
Dydd Sadwrn, 25 Awst 2018 – Y Lawnt Uchaf, Plasty Derwydd
- Cyflenwi Alcohol, Adloniant Rheoledig a Lluniaeth hwyrnos 12:00-00:30

Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro 2 –
Dydd Sadwrn, 1 Medi 2018 – Y Lawnt Uchaf, Plasty Derwydd.

- Cyflenwi Alcohol, Adloniant Rheoledig a Lluniaeth hwyrnos 12:00-00:30

Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro 3 –
Dydd Sadwrn, 3 Tachwedd 2018 – Y Neuadd Fawr, Plasty Derwydd.

- Cyflenwi Alcohol, Adloniant Rheoledig a Lluniaeth hwyrnos 12:00-00:30

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybod i'r Pwyllgor fod Adain Iechyd y Cyhoedd wedi gwrthod pob un o'r 3 Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar sail niwsans sŵn yn dilyn digwyddiadau eraill a gynhaliwyd ar y safle.

Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth i'r dogfennau a gyflwynwyd, a'r holl sylwadau ysgrifenedig perthnasol a gafwyd cyn y gwrandawiad gan y partïon.

Cafodd yr Is-bwyllgor sylwadau llafar gan Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd:-

- Rhoddodd yr Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd wybod i'r Is-bwyllgor ei fod wedi gwrthod yr Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro oherwydd hanes blaenorol ynghylch niwsans sŵn yn ystod digwyddiadau ym Mhlas Derwydd.

- Ers y cyfarfod diwethaf, rhoddodd yr Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd wybod ei fod wedi cwrdd â Mr Ian Matthews, sef Ymgynghorydd Acwstig Mrs Dallavalle, a oedd wedi nodi, er nad oedd lefelau sŵn penodol yn bodoli ar gyfer digwyddiadau o'r fath, y cytunwyd y byddai lefel bwrpasol yn cael ei phennu ar gyfer y math hwn o ddigwyddiad. Cydnabuwyd y byddai angen arbrofi ychydig o bosibl er mwyn dod o hyd i lefel dderbyniol y cytunir arni.

- Cafodd yr Is-bwyllgor gyfle i ystyried tystiolaeth ychwanegol a ddosbarthwyd ar ddechrau'r cyfarfod. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys graffiau oedd yn dangos lefel y sŵn a gofnodwyd ar 2 Mehefin 2018 am 22:57 ac ar 28 Gorffennaf 2018 am 21:11. Roedd yn amlwg bod y graff cofnodi sŵn ar gyfer 28 Gorffennaf yn dangos bod gostyngiad sylweddol yn sŵn y curiad/bas ers y lefel ar 2 Mehefin.

- Tynnodd Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd sylw'r Is-bwyllgor at y ffaith ei bod wedi bod yn anodd cael recordiad sŵn 'clir' oherwydd y tywydd gwael, ond er gwaethaf hyn, roedd lefelau'r sŵn ar y graff ar gyfer 28 Gorffennaf yn dal i ddangos gostyngiad sylweddol o 12 desibel.


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

- Yn ogystal, cafwyd ar ddeall bod Mr Matthews wedi datblygu cynllun rheoli sŵn a oedd wedi cael ei roi ar waith i sicrhau bod y gostyngiad o ran sŵn yn cael ei gynnal mewn digwyddiadau yn y dyfodol. Cydnabuwyd bod yr holl gamau rheoli yn dibynnu ar Mrs Dallavalle yn cymryd camau gweddol syml i liniaru sŵn. Ar y lefelau hyn roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai'r digwyddiadau'n achosi niwsans cyhoeddus.

Cafodd yr holl bartïon gyfle i holi Swyddog Iechyd yr Amgylchedd am ei sylwadau ac am y dystiolaeth a gyflwynwyd.

Yna cafodd yr Is-bwyllgor dystiolaeth gan gymydog i'r safle oedd yn cefnogi gwrthwynebiadau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd, a nodwyd y canlynol:-

- Roedd hon wedi bod yn broblem barhaus ers dwy flynedd;

- Gall fod y tywydd gwael ar 28 Gorffennaf 2018 wedi cyfrannu at ostyngiad mewn sŵn pobl oherwydd bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr y digwyddiad wedi aros y tu mewn i'r babell fawr;

- Y gofid oedd y byddai Mrs Dallavalle yn anwybyddu'r cynllun rheoli sŵn yn y dyfodol.

Rhoddwyd cyfle i'r holl bartïon holi'r tyst ynghylch ei sylwadau.

- Cyfeiriwyd at y graffiau monitro sŵn. Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd yr Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd fod y graffiau'n cofnodi'r gerddoriaeth yn unig ac nid sŵn pobl yn y cefndir.

- Mewn ymateb i ymholiad arall, nododd yr Ymarferydd Iechyd yr Amgylchedd ei fod wedi gweld y cynllun rheoli sŵn a oedd yn cynnwys y mesurau ymarferol canlynol:-

    - Pennu lefel gyffredinol y sŵn
    - Lleihau'r mynediad i'r maes parcio;
    - Rhoi hysbysiadau i gwsmeriaid;
    - Trefnu staff yn y maes parcio;
    - Gosod cyfyngiadau ar ddefnyddio rhannau o'r maes parcio;
    - Cau ffenestri a drysau ar gyfer digwyddiadau y tu mewn;
    - Troi'r seinyddion oddi wrth eiddo;
    - Dim cerddoriaeth fyw/heb ei rheoli.

Nid oedd yr Is-bwyllgor wedi cael sylwadau llafar gan Mrs Dallavalle na Mr Matthews, sef yr ymgynghorydd sŵn, gan nad oeddent yn bresennol.

Ar hynny:

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol.**

Ar ôl y toriad, rhoddodd yr Is-bwyllgor sylw hefyd i'r paragraffau perthnasol yn Natganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ac i'r Cyfarwyddyd a gyhoeddir gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a chan y Swyddfa Gartref a nodwyd yn yr eitem ar yr agenda, ac i'r rheiny y cyfeiriwyd atynt gan y partïon.

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron, y dylid ymdrin â'r Hysbysiadau Digwyddiad Dros Dro fel a ganlyn:-**

| | | |
|---|---|---|
| **Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro 1 -** | **25 Awst, 2018** | **Nid oedd gwrth-hysbysiad wedi cael ei gyflwyno** |
| **Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro 2 -** | **1 Medi 2018** | **Nid oedd gwrth-hysbysiad wedi cael ei gyflwyno** |
| **Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro 3 -** | **3 Tachwedd 2018** | **Gohirio tan 26/09/18** |

**<u>Y RHESYMAU:-</u>**

Wrth benderfynu ar y cais, roedd y ffeithiau canlynol yn hysbys i'r Is-bwyllgor;

1. Mae'r safle yn agos at ddwy fangre breswyl;
2. Roedd sŵn yn hwyr yn y nos a oedd yn dod o ddigwyddiadau ar y safle wedi tarfu ar y preswylwyr yn un o'r eiddo hynny yn y gorffennol;
3. Mae'r recordiadau sŵn a wnaed gan Wasanaethau Iechyd y Cyhoedd yn ystod digwyddiadau yn y gorffennol yn awgrymu y gallai digwyddiadau arwain at niwsans i'r preswylwyr yn yr eiddo hynny;
4. Nid oes unrhyw bobl eraill yng nghyffiniau'r eiddo a fyddai'n debygol o gael eu heffeithio gan unrhyw ddigwyddiadau a fyddai'n cael eu cynnal;
5. Nid oedd y preswylwyr yn yr eiddo ail agosaf wedi gwneud unrhyw gwynion ynghylch sŵn yn dod o'r safle;
6. Roedd y cynllun rheoli sŵn yn effeithiol yn ôl pob golwg, ond roedd yn dibynnu ar Mrs Dallavalle yn ei roi ar waith;
7. Yn absenoldeb unrhyw sicrwydd gan Mrs Dallavalle ynghylch hyn, roedd yr Is-bwyllgor yn pryderu a fyddai hyn yn digwydd.

Roedd yr Is-bwyllgor wedi rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol.

Roedd yr Is-bwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad yw pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe caniateid i'r digwyddiadau hyn gael eu cynnal, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallant roi ystyriaeth briodol iddynt.

Barn yr Is-bwyllgor oedd bod tystiolaeth y trigolion lleol yn gredadwy ac mae'n derbyn bod digwyddiadau yn y safle wedi tarfu ar breswylwyr un eiddo yn y gorffennol.

Wrth benderfynu, roedd angen i'r Is-bwyllgor gymryd camau priodol i hyrwyddo'r amcan trwyddedu o ran atal Niwsans Cyhoeddus.

Yng ngoleuni tystiolaeth Mr Morgan, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon na fyddai niwsans cyhoeddus yn digwydd yn sgil y digwyddiadau hyn petai'r cynllun rheoli sŵn yn cael ei weithredu. Fodd bynnag, gan nad oedd Mrs Dallavalle yn bresennol roedd angen rhagor o dystiolaeth ar yr Is-bwyllgor y byddai'r cynllun yn cael ei weithredu ac am ei effeithiolrwydd cyn gwneud penderfyniad ynghylch yr Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro ar gyfer 3 Tachwedd 2018.

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# PWYLLGOR TRWYDDEDU

**DYDD IAU, 2AIL AWST, 2018**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
J.M. Charles, P.M. Edwards, R.E. Evans, W.T. Evans, A.L. Fox, J.K. Howell, H.I. Jones, J.G. Prosser, D.E. Williams a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr E. Jones | - | Arweinydd Trwyddedu |
| Mr R. Edgecombe | - | Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol |
| Mr J. Power | - | Uwch Swyddog Trwyddedu |
| Mr M. Heath | - | Swyddog Trwyddedu |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

Yn cynrychioli Awdurdod yr Heddlu: Mr M. Price

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 12.25 p.m.**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr F. Akhtar a C.A. Davies.

Cydymdeimlodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, â'r Cynghorydd Akhtar yn dilyn marwolaeth drist ei thad yn ddiweddar.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR DERRICK LEWIS

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Derrick Lewis o 26 Ralph Terrace, Llanelli, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Lewis ynghylch y mater hwnnw.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Lewis yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr. Derick Lewis yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Y rhesymau</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

4. **CAIM AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR MICHAEL LEE HOPKINS**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais gan Mr Michael Lee Hopkins o 59 Chemical Road, Treforys, Abertawe am ganiatáu trwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai / hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Hopkins ynghylch ei gais. Darllenwyd geirda gan ddarpar gyflogwr er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Hopkins yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Michael Lee Hopkins am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Y rhesymau

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

5. **CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR RICHARD LEE JONES**

Atgoffwyd y Pwyllgor fod y cais hwn wedi'i ohirio yn y cyfarfod oedd wedi ei gynnal ar 27 Mehefin gan nad oedd Mr Jones yn gallu bod yn bresennol. Roedd Mr Jones wedi cysylltu â swyddogion unwaith eto ynghylch cyfarfod heddiw i ddweud na fyddai'n gallu bod yn bresennol gan ei fod yn mynd i angladd a gofynnodd am ohirio ystyried ei gais tan y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried cais Mr Richard Lee Jones am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat tan y cyfarfod nesaf.**

6. **CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT - MR IAN BARRIE VINSON**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y cais gan Mr Ian Barrie Vinson o 16 Tan y Bryn, Porth Tywyn, Llanelli am adnewyddu ei drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Vinson ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr. Vinson yn cael ei ganiatáu a'i fod yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny


Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Ian Barrie Vinson am adnewyddu ei Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd terfynol iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Y rhesymau

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 7. DEILIAD TRWYDDED BERSONOL - CHARLENE LINDA MCKENZIE

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Miss Charlene Linda McKenzie o Awelon, Blaen-waun, Hendy-gwyn ar Daf, yn ddeiliad Trwydded Bersonol gyda'r awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei thrwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Miss McKenzie ynghylch y mater hwnnw a chafwyd sylwadau gan gynrychiolydd yr heddlu.

Argymhellodd yr Arweinydd Trwyddedu fod Trwydded Bersonol Miss McKenzie yn cael ei dirymu.

Ar hynny

**PENDERFYNODD yr Is-bwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, bod Trwydded Bersonol Miss Charlene Linda McKenzie yn cael ei hatal am fis.**

Y rhesymau

Wrth benderfynu ar y cais, roedd y Pwyllgor yn rhoi pwys ar farn yr awdurdodau cyfrifol.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod yn rhaid i'w benderfyniad gael ei seilio ar dystiolaeth wirioneddol, ac nad oedd pryderon nac ofnau ynghylch yr hyn a allai ddigwydd pe nad oedd yn dirymu trwydded bersonol Miss McKenzie, lle nad oedd tystiolaeth o'r fath i'w hategu, yn faterion y gallai roi ystyriaeth briodol iddynt.

Mae deiliaid Trwydded Bersonol yn elfen allweddol o'r drefn drwyddedu sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwerthiant alcohol yn cael ei reoli'n briodol a bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu hyrwyddo. Yn benodol, maent yn gyfrifol am sicrhau nad yw gwerthiant alcohol yn arwain at droseddu ac anrhefn.

Dan yr amgylchiadau hyn, roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai'n anghymesur (ac felly'n amhriodol) i ddirymu trwydded bersonol Miss McKenzie. Er hynny, roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol i gymryd camau, (atal y drwydded am gyfnod byr yn yr achos hwn) er mwyn hyrwyddo'r amcan trwyddedu o atal troseddau ac anhrefn.

Roedd y Pwyllgor yn barnu bod y cyfnod hwn o ataliad yn ymateb cymesur i'r materion oedd dan sylw.

[NODER: Gohiriwyd cyfarfod y Pwyllgor am 11:40 a.m. er mwyn galluogi swyddogion i osod yr offer ar gyfer yr eitem agenda nesaf. Roedd y Pwyllgor wedi ailymgynnull am 11:50 a.m.]

## 8. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - CAIS YN YMWNEUD A DOSBARTHIAD FFILM

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais a gafwyd gan Mrs Mair Craig, ar ran Ystafelloedd Darllen Llansadwrn, yn gofyn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio pedair ffilm fer a oedd yn ddiddosbarth yn flaenorol.

Roedd yr ymgeisydd yn bwriadu arddangos y pedair ffilm, sef "A Good Bitch”, “The Man Who Was Afraid of Falling”, “Boris-Noris” ac “Elen”, cyn dangos ffilm dystysgrifedig yn y sinema gymunedol. Yn ogystal, roedd y safle'n bwriadu gweithredu'r sinema gymunedol o dan yr esemptiadau safle cymunedol a nodir ym mharagraff 6A o Atodlen 1 i Ddeddf Trwyddedu 2003.

Nododd y Pwyllgor y dylai'r ffilmiau a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio, a roddwyd naill ai gan gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i wneud yr argymelliadau gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilmiau, cafodd gyfle i wylio'r pedair ffilm fer gan roi ystyriaeth i'r canllawiau ynghylch y graddau oedran a luniwyd gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd gerbron y Pwyllgor

**PENDERFYNWYD:**

1. **y dylai "A Good Bitch" gael ei hystyried yn ffilm sy'n addas i bob oed (U);**
2. **y dylai "The Man Who Was Afraid of Falling" gael ei hystyried yn ffilm sy'n addas i bob oed (U);**
3. **y dylai "Boris-Noris" gael ei hystyried yn ffilm sydd dan gyfarwyddyd rhiant (PG);**
4. **y dylai "Elen" gael ei hystyried yn ffilm na chaiff personau o dan 12 oed ei gwylio heb gyfarwyddyd rhiant (12A).**

## 9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 19EG MEHEFIN, 2018

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu "A" a gynhaliwyd ar 19 Mehefin, 2018, gan eu bod yn gywir.**

**10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 26AIN MEHEFIN, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu "B" a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018, gan eu bod yn gywir.**

**11. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 27AIN MEHEFIN, 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2018 yn gofnod cywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol